CYHOEDDIAD

# Y cam nesaf ar gyfer rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru

Ein cynigion ar gyfer cam nesaf rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 24 Awst 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 24 Awst 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cefndir i raglen Sêr Cymru

Manylion camau blaenorol Sêr Cymru

Nod yr ymgynghoriad hwn

Trosolwg o gynigion

Themâu arfaethedig

Adrannau arfaethedig

Cwestiynau’r ymgynghoriad

Sut i ymateb

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU)

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cefndir i raglen Sêr Cymru

Mae rhaglen ariannu ymchwil **Sêr Cymru** wedi bodoli ers ychydig o dan ddegawd ac mae wedi hwyluso ymchwil hunangynhaliol, rhyngddisgyblaethol mewn meysydd megis gwyddorau bywyd, yr amgylchedd, peirianneg a coronafeirws (COVID-19).

Mae wedi llwyddo i adeiladu capasiti ymchwil a gallu yng Nghymru, gan gynhyrchu dros £191 miliwn o incwm ymchwil. Mae Sêr Cymru II yn parhau i fod yn weithredol tan ddiwedd mis Mehefin 2023, pan ddaw ein cyllid Ewropeaidd i ben.

# Manylion camau blaenorol Sêr Cymru

## Cam I

Lansiwyd cam cyntaf Sêr Cymru lansio yn 2012 gan ganolbwyntio ar gynyddu'r gallu. Roedd yn cynnwys:

- Cadeiriau Ymchwil
- Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol (NRNs)

## Cam II

Yn dilyn llwyddiant cam 1, canolbwyntiodd cam 2 ar gynyddu'r capasiti a oedd yn cynnwys:

- Cadeiriau Ymchwil
- Sêr y Dyfodol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Cymrodoriaethau
- Adfeddiannu Doniau

### Rhan II+

Roedd y cam hwn hefyd yn canolbwyntio ar gynyddu capasiti'r rhaglen. Roedd yn cynnwys:

- Gwobrau Seilwaith Cyflymu
- Gwobrau Partneriaethau Strategol Cyflymu
- Costau rheoli'r Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol (NRNs)
- Cymrodoriaethau Diwydiannol
- Gwobrau Adeiladu Capasiti Cyflymu

### Cam III

Roedd y cam hwn yn Sêr Cymru yn canolbwyntio ar wella gwobrau seilwaith cystadleuol a mynd i'r afael â'r coronafeirws (COVID-19).

Un o 5 blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi yw:

> “ "Parhau i ddatblygu capasiti Cymru am ymchwil ardderchog drwy lansio cam nesaf Sêr Cymru. ”

## Nod yr ymgynghoriad hwn

Rydym yn awr yn gofyn am farn ar gynigion ar gyfer cam nesaf Sêr Cymru, sy'n ceisio darparu cyfleoedd ariannu a fydd yn gwella gallu a chydweithio ar ymchwil

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ledled Cymru.

## Trosolwg o gynigion

The next stage of the programme is currently entitled the Sêr Cymru National Institute of Advanced Studies (SCNIAS) / Sêr Cymru IV (working titles) and, subject to consultation and approvals, we aim to launch in Autumn/Winter 2022.

This new stage of the programme is proposing 8 components with a potential to fund over 3 financial years, however, with budget restraints, it may not be possible to support all components. Evidence collated from this consultation will help prioritise and refine delivery mechanisms to ensure the continuing success of the programme.

Mae cam nesaf y rhaglen nawr yn dwyn y teitl Sefydliad Cenedlaethol Astudiaethau Uwch Sêr Cymru (SCNIAS) / Sêr Cymru IV (teitl gwaith) ac, yn amodol ar ymgynghori a chymeradwyo, ein nod yw lansio yn yr Hydref/Gaeaf 2022.

Mae'r cam newydd hwn o'r rhaglen yn cynnig 8 adran gyda photensial i ariannu dros 3 blwyddyn ariannol, fodd bynnag, gyda cyfyngiadau ar y gyllideb, efallai na fydd modd cefnogi pob adran. Bydd tystiolaeth sy'n cael ei goladu o'r ymgynghoriad hwn yn helpu i flaenoriaethu a mireinio mecanweithiau cyflenwi er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y rhaglen.

Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i sicrhau bod yr holl alwadau cyllid yn ddeniadol ac yn hygyrch i ystod amrywiol o ymgeiswyr.

Byddai cyllid ar gyfer pob elfen yn bennaf gan Lywodraeth Cymru, ond byddem yn disgwyl lefel o gyllido ar y cyd gan y sefydliad cynnal ar gyfer pob un o'r adrannau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Bydd angen elfen thematig er mwyn i'r rhaglen flaenoriaethu cyllid cyfyngedig a hwyluso aliniad i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, fodd bynnag bydd y rhaglen yn gyffredinol yn parhau'n hyblyg a bydd yn gweithredu mewn ymateb i newidiadau mewn polisïau a heriau cyd-destunol eraill. Bydd y galwadau eu hunain yn debygol o fod yn fwy penodol i ddelio â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r cyllid sydd ar gael oddeutu ychydig dros £10 miliwn dros 3 blwyddyn ariannol (2022-23; 2023-24 a 2024-25).

Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r adrannau arfaethedig a'r cwestiynau ymgynghori.

Cofiwch ein bod yn bwriadu lansio galwad offer ar wahân yn yr Hydref, yn amodol ar gytundeb Gweinidogol. Bydd mwy o fanylion yn cael eu cyhoeddi ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

# Themâu arfaethedig

Dyma'r themâu arfaethedig cyffredinol, trawsbynciol, ar gyfer cam nesaf rhaglen Sêr Cymru:

## Themâu eang:

- gwyddorau bywyd
- iechyd a gofal cymdeithasol
- carbon isel a Sero Net
- ynni
- yr amgylchedd a defnydd tir
- morol a physgodfeydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- bioamrywiaeth
- peirianneg
- twristiaeth, chwaraeon, celfyddydau

**Themâu trawsbynciol:**

- gwyddorau cymdeithasol
- digidol
- y Gymraeg
- lles

# Adrannau arfaethedig

Rhestrir adrannau arfaethedig cam nesaf Sêr Cymru isod. Gweler y diagram gan gynnwys **adrannau cyfnodau blaenorol ac arfaethedig Sêr Cymru**.

1. Gwobrau Adeiladu Capasiti

Llinyn hyblyg o gyllid i gefnogi swyddi ymchwilwyr newydd am gyfnod penodol a galluogi'r rhaglen i adeiladu ar y capasiti a'r gallu a gyflawnwyd eisoes (er enghraifft; Cymrodoriaethau, 'Doniau Newydd', Cadeiriau Ymchwil neu gynigion sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu Clystyrau Rhagoriaeth mewn meysydd blaenoriaeth strategol).

2. Cymrodoriaethau Rhyngwladol sydd ar ddod

Cyllid i academyddion neu arweinwyr busnes arbennig sy'n gysylltiedig â Phrifysgolion i ymweld â Chymru am gyfnod o hyd at 2 fis i ddatblygu cydweithio a chynnig cyfleoedd i gyfoethogi bywyd ymchwil yng Nghymru.

3. Cymrodoriaethau Rhyngwladol Allan

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyllid i ymchwilwyr ym mhob cam gyrfa i ymweld â chanolfannau ac academyddion a gydnabyddir yn rhyngwladol am hyd at 2 fis i ddatblygu cydweithrediadau a phrofiad rhyngwladol.

4. Cymrodoriaethau Academia Diwydiant

Cymorth ariannol i Gymrodoriaethau Cenedlaethol a Rhyngwladol sydd rhwng y byd academaidd a diwydiant, i sicrhau mwy o ffocws ymchwil tuag at anghenion busnes a chydweithio posibl.

5. Ysgoloriaethau Doethuriaeth

Llif ariannol penodol i helpu i ddatblygu capasiti ymchwil a thalu costau hyfforddiant doethurol mewn prifysgolion yng Nghymru.

6. Cymrodoriaethau yn Dychwelyd

Ffrwd ariannu hyblyg wedi'i chynllunio i annog cadw a dod o hyd i ddoniau yng Nghymru drwy gefnogi ymchwilwyr ôl-ddoethurol sy'n dychwelyd o gyfnod o absenoldeb.

7. Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol

Darparu cymorth er mwyn sefydlu neu gefnogi rhwydweithiau presennol rhwng academyddion a sefydliadau a diwydiannau cysylltiedig ledled Cymru mewn meysydd o arbenigedd penodol ar thema.

8. Arian ar gyfer gweithdai a digwyddiadau

Cyfle i gyflwyno cynigion i gynnal gweithdai pwrpasol a/neu symposia mewn maes sy'n berthnasol i ymchwilwyr yn eu sefydliad ac ar draws Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cwestiwn 1. Atebwch y cwestiynau canlynol ar gyfer pob un o'r 8 elfen arfaethedig o gam nesaf Sêr Cymru a fanylir uchod.

### Cwestiwn 1a. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Gwobrau Adeiladu Capasiti' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru

- Byddwn
- Na fyddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

### Cwestiwn 1b. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Cymrodoriaethau Rhyngwladol sydd ar ddod' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

- Byddwn
- Na fyddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

### Cwestiwn 1c. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Cymrodoriaethau Rhyngwladol Allan' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

- Byddwn
- Na fyddwn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

## Cwestiwn 1d. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Cymrodoriaethau Academia Diwydiant' yng ngham nesaf y rhaglen Sêr Cymru?

- Byddwn
- Na fyddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

## Cwestiwn 1e. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Ysgoloriaethau Doethuriaeth' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru

- Byddwn
- Na fyddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

## Cwestiwn 1f. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Cymrodoriaethau yn Dychwelyd' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru

- Byddwn
- Na fyddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Cwestiwn 1g. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

- Byddwn
- Na fyddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

### Cwestiwn 1h. A fyddech chi'n cefnogi cynnwys 'Arian ar gyfer gweithdai a digwyddiadau' yng ngham nesaf rhaglen Sêr Cymru?

- Byddwn
- Na fyddwn

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch, gan gynnwys unrhyw awgrymiadau am sut y byddai'r elfen hon yn gweithio orau.

## Cwestiwn 2. Ble fyddech chi'n gosod pob un o'r elfennau?

Nodwch rif rhwng 1 ac 8, lle mae 1 = prif flaenoriaeth ac 8 = blaenoriaeth isaf.

Rhowch rif gwahanol ar gyfer pob elfen.

- Gwobrau Adeiladu Capasiti
- Cymrodoriaethau Rhyngwladol sydd ar Ddod
- Cymrodoriaethau Rhyngwladol Allan
- Cymrodoriaethau Cenedlaethol a Rhyngwladol Academia Diwydiant
- Ysgoloriaethau Doethuriaeth
- Rhaglen Cymrodoriaeth yn Dychwelyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol
- Cyllid ar gyfer gweithdai a digwyddiadau

## Cwestiwn 3. A ydych chi'n teimlo bod unrhyw adrannau ar goll o'r rhaglen ariannu arfaethedig?

- Ydw
- Nac ydw

Os ydych chi’n ateb ydw, esboniwch beth rydych chi'n teimlo sydd ar goll ymhellach os gallwch chi

## Cwestiwn 4. A fyddech chi'n ei chael hi'n fuddiol cael yr opsiwn i gynnig prosiect graddol, gan ymgorffori nifer o'r elfennau uchod?

- Ydw
- Nac ydw

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi

## Cwestiwn 5. A ydych yn cytuno â 'Sefydliad Cenedlaethol Astudiaethau Uwch Sêr Cymru' neu 'Sêr Cymru IV' fel teitl arfaethedig cam nesaf y rhaglen?

- Sefydliad Cenedlaethol Astudiaethau Uwch Sêr Cymru
- Sêr Cymru IV

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cwestiwn 6. A ydych chi'n cytuno y dylai canlyniad arfaethedig gael ei wella ar y cyd?

- Ydw
- Nac ydw

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi

## Cwestiwn 7. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r themâu eang arfaethedig ar gyfer y rhaglen newydd, y manylir arnynt isod:

Themâu eang:

- gwyddorau bywyd
- iechyd a gofal cymdeithasol
- carbon isel a Sero Net
- ynni
- yr amgylchedd a defnydd tir
- morol a physgodfeydd
- bioamrywiaeth
- peirianneg
- twristiaeth, chwaraeon, celfyddydau

Themâu trawsbynciol:

- gwyddorau cymdeithasol
- digidol
- y Gymraeg
- lles

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cwestiwn 7a. Ble byddech chi’n graddio pob un o’r themâu eang? Nodwch rif rhwng 1 a 9, (1 = prif flaenoriaeth a 9 = blaenoriaeth isaf). Rhowch rif gwahanol ar gyfer pob elfen.

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi.

## Cwestiwn 7b. A ydych chi'n cytuno â'r themâu trawsbynciol?

- Ydw
- Nac ydw

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi

## Cwestiwn 7c. A ydych chi'n teimlo bod unrhyw themâu ar goll (eang neu drawsbynciol)?

- Ydw
- Nac ydw

Esboniwch eich ymateb ymhellach os gallwch chi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cwestiwn 8. Pa fecanweithiau y gallem ni eu sefydlu i wneud cyfleoedd cyllido Sêr Cymru yn fwy deniadol a hygyrch i ystod amrywiol o ymgeiswyr?

## Cwestiwn 9. A oes unrhyw beth arall y dymunwch roi adborth arnynt o ran y rhaglen ariannu arfaethedig?

## Cwestiwn 10. Pa grŵp rhanddeiliaid ydych chi'n ei gynrychioli yn eich barn chi?

- Dinesydd
- Grŵp cymunedol
- Y sector preifat
- Y sector cyhoeddus
- Sefydliadau ymchwil / academaidd
- Y trydydd sector
- Arall

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cwestiwn 11. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai y cam nesaf ar gyfer rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 12: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'y cam nesaf ar gyfer rhaglen ariannu ymchwil Sêr Cymru' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn: [cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Cwestiwn 13: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.**

## Sut i ymateb

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 18 Hydref 2022.

Dyma ymgynghoriad byrrach am gyfnod o 8 wythnos yn hytrach na’r 12 wythnos a argymhellir fel arfer. Bernir bod hyn yn briodol, yn amserol ac er budd y cyhoedd yn sgil y newidiadau sy’n digwydd ym maes cyllid ar gyfer ymchwil ar lefel y DU ac oherwydd bod y rhanddeiliaid allweddol yn grŵp cymharol benodol.

Gallwch ymateb yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Llenwch ein ffurflen ar-lein
- Lawrlwythwch ein ffurflen ymateb a'n hanfon ebost at: **sercymru@llyw.cymru**
- Lawrlwythwch ac argraffwch ein ffurflen ymateb ar-lein a'i phostio i:

Ymgynghoriad Sêr Cymru
Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

# Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU)

Bydd Llywodraeth Cymru yn rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn ei ddarparu yn rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut y byddant yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru yn delio â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ymwneud â nhw neu gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol. Lle mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriad yna gellir comisiynu'r gwaith hwn i'w wneud gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Roedd telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn amlinellu gofynion llym o ran prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn iawn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosib y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw neu eich cyfeiriad gael ei gyhoeddi, dywedwch hyn wrthym yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Yna byddwn yn eu hadactio cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau yn sgil deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os yw eich manylion yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, yna bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw un o'ch data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am ddim mwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch chi ac i gael mynediad iddo
- i’w wneud yn ofynnol i ni gywiro anghywirdebau yn y data hwnnw
- i (mewn amgylchiadau penodol) wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- i’ch data (o dan amgylchiadau penodol) gael ei 'ddileu'
- i (mewn amgylchiadau penodol) gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i’r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Am fanylion pellach am y wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a'i defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

## Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: **data.protectionofficer@gov.wales**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu  0303 123 1113

Gwefan: **ico.org.uk**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Rhif: WG45529

Am ragor o wybodaeth:

Ymgynghoriad Sêr Cymru
Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille ac mewn **ieithoedd eraill** yn ôl y gofyn.

> **Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
> Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/y-cam-nesaf-ar-gyfer-rhaglen-ariannu-ymchwil-ser-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.